**Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio**

**Cofnodion cyfarfod 4 Mawrth 2014**

**Yn bresennol**

**Aelodau'r Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Rebecca Evans (Cadeirydd) | Llafur Cymru |
| Jeff Cuthbert | Llafur Cymru |
| Kirsty Williams | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru |
| Aled Roberts | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru |
| Elin Jones | Plaid Cymru |

**Cyfarwyddwyr Nyrsio / Eraill**

| | |
|---|---|
| Helen Whyley | Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru ar ran y Gweinidog |
| Rhiannon Beaumont-Wood | Cyfarwyddwr Nyrsio, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Ruth Walker | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Caerdydd a'r Fro |
| Lynda Williams | Cyfarwyddwr Nyrsio, Cwm Taf |
| Denise Llewellyn | Cyfarwyddwr Nyrsio, Aneurin Bevan |

**Siaradwyr**

| | |
|---|---|
| Neil Evans | Nyrs Adran Achosion Brys, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Kelly Downes | Rheolwr Gwella Diogelwch Cleifion |

**Aelodau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Gaynor Jones | Cadeirydd |

**Staff Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**

| | |
|---|---|
| Tina Donnelly | Cyfarwyddwr |
| Peter Meredith-Smith | Cyfarwyddwr Cyswllt (Cysylltiadau Cyflogaeth) |
| Lynne Hughes | Cynghorydd Polisi a Materion Cyhoeddus |
| John Hoddinott | Cynorthwy-ydd Polisi a Materion Cyhoeddus |

---

**<u>Ymddiheuriadau</u>**

**Aelodau'r Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Bethan Jenkins | Plaid Cymru |
| Gwenda Thomas | Llafur Cymru |
| David Melding | Ceidwadwyr Cymreig |
| Simon Thomas | Plaid Cymru |
| Lindsay Whittle | Plaid Cymru |
| Edwina Hart | Llafur Cymru |
| Gwenda Thomas | Llafur Cymru |
| David Melding | Ceidwadwyr Cymreig |
| Lynne Neagle | Llafur Cymru |
| Huw Lewis | Llafur Cymru |
| Carwyn Jones | Llafur Cymru |
| Jocelyn Davies | Plaid Cymru |
| Vaughan Gething | Llafur Cymru |

| | |
|---|---|
| Carl Sargeant | Llafur Cymru |
| Angela Burns | Ceidwadwyr Cymreig |
| Darren Millar | Ceidwadwyr Cymreig |
| David Rees | Llafur Cymru |

**Cyfarwyddwyr Nyrsio / Eraill**

| | |
|---|---|
| Caroline Oakley | Cyfarwyddwr Nyrsio, Hywel Dda |
| Carol Shillabeer | Cyfarwyddwr Nyrsio, Powys |
| Jean White | Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru |
| Sue Morgan | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
| Nicola Ryley | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Aneurin Bevan |
| Angela Hopkins | Cyfarwyddwr Nyrsio, Betsi Cadwaladr |

1. Croesawodd Rebecca Evans AC bawb i'r cyfarfod.

2. Cynllunio'r Gweithlu yn y GIG

   Cyflwynodd Peter Meredith Smith y sesiwn (mae'r sleidiau ynghlwm).

   Trafododd Neil Evans, Nyrs Adran Achosion Brys, a Kelly Downes, Rheolwr Diogelwch Cleifion, y pwysau y mae nyrsys ar y rheng flaen yn eu hwynebu.

   Pwyntiau allweddol a drafodwyd yn y fforwm agored:

   - Cafwyd cydnabyddiaeth fod nyrsys yn gweithio'n hynod o galed, ond ei bod yn anodd iddynt roi'r gofal gorau posibl. Mae nifer fawr o gleifion ac mae ganddynt anghenion mwy cymhleth nag erioed.

- A oes gan y GIG yng Nghymru nifer ddigonol o nyrsys a nyrsys sydd â'r cyfuniad cywir o sgiliau?

- Mae'n anodd i nyrsys gael cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus (yn enwedig yng Nghymru – gweler canlyniadau arolwg cyflogaeth y Coleg Nyrsio Brenhinol).

- Adborth ynghylch byrddau iechyd lleol – mae'r staff sydd i ffwrdd yn sâl, sydd wedi eu hatal rhag gweithio neu sy'n fyfyrwyr nyrsio wedi'u cynnwys yn ffigurau swyddogol y byrddau iechyd lleol o'r 'nyrsys sy'n gweithio' .

- Mae angen i ni edrych ar ddibyniaeth y cleifion ar y ward / yn yr adran yn hytrach na dim ond ar nifer y nyrsys. Ni ddylai'r nifer isaf o nyrsys sydd eu hangen fod yn rhif safonol cyffredin. Mae angen i arweinwyr nyrsys allu defnyddio eu barn broffesiynol a gofyn am ragor o staff os bydd angen. Mae angen i'r nyrsys sy'n gyfrifol am wardiau gael y gallu i redeg eu wardiau.

- Defnyddio staff sy'n perthyn i asiant neu gronfa staff – nodwyd bod staff dros dro yn gallu mynd i'r afael ag anawsterau staffio yn y tymor byr. Cafwyd cydnabyddiaeth fod anfanteision sylweddol i ddibynnu ar staff dros dro yn yr hirdymor, gan gynnwys costau uwch a bod y staff dros dro yn anghyfarwydd ag amgylchedd y ward, ei gleifion a'r staff parhaol.

- Mae'r gost i nyrsys unigol o ganlyniad i bwysau llwyth gwaith yn bwysig. Nodwyd, ar hyn o bryd, ein bod yn caniatáu i'n nyrsys orweithio.